Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Dr Helen Paterson
Prif Weithredwraig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Guildhall
Wrecsam
LL11 1AY

17 Ebrill 2015

Annwyl Dr Paterson

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Mae'n glir o'ch ymateb eich bod wedi meddwl gryn dipyn am hyn a'ch bod wedi canolbwyntio'n gryf ar y canlyniadau rwy'n ceisio eu sicrhau ar ran pobl hŷn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

‘annerbyniol’ yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu’n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i’r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai’n rhannol neu’n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â’r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni’r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu’r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â’r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai’n rhoi’r lefel sicrwydd rwy’n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae’n ofynnol imi gadw cofrestr o’r ymatebion i’m Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy’n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â’r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i’n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi’r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o’r camau sydd ar eu hanner a’r camau y mae’r cyrff unigol sy’n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’m Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr a'i fod yn cyfeirio'n fyr at wasanaethau sy'n cael eu defnyddio a darparwyr yn yr ardal, gan ddweud hefyd fod Eiriolaeth Annibynnol yn cael ei ariannu drwy ddau wasanaeth – Dewis CIL ac Independent Advocacy Works.

O ran y manylion penodol, mae'r ymateb yn rhoi crynodeb buddiol o'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael, gan ddweud bod Dewis CIL yn darparu Eiriolaeth Annibynnol i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan yr Awdurdod Lleol. Nid yw'n glir a yw hyn yn cynnwys pobl sy'n eu hariannu eu hunain.

Mae'r ymateb yn mynd i'r afael ag anghenion y Comisiynydd ac mae'n dweud bod Eiriolaeth Annibynnol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd yn ystod y broses ddiogelu a phan fydd cartrefi gofal yn cau.

Yn ychwanegol, mae'r ymateb yn nodi bod Independent Advocacy Works yn darparu Eiriolaeth Annibynnol i'r rhai sydd â'u galluedd yn amrywio neu sydd ag anawsterau cyfathrebu.

Mae'r ymateb hefyd yn crynhoi camau sydd wedi'u bwriadu i fonitro sut mae gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol yn cael eu defnyddio mewn cartrefi gofal. Byddai'n well pe bai'n cynnwys dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol ac o unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n anelu at fynd i'r afael â bylchau a diffygion, a'r rheiny'n cynnwys llinellau amser clir, yn enwi swyddogion atebol ac yn rhoi sicrwydd y bydd yr Angen Gweithredu yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth o'r ystod o wasanaethau gofal amlddisgyblaeth ac arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r ymateb yn cyfeirio at y deilliannau cadarnhaol sydd wedi'u sicrhau gan eu Tîm Ail-alluogi, gan ganiatáu i bobl symud o gartref gofal ac yn ôl i'w cartref eu hunain.

Mae'r ymateb yn dweud hefyd fod yr Awdurdod Lleol wedi ehangu ei wasanaeth cwympo i weithio gyda phreswylwyr cartrefi gofal i atal derbyniadau i'r ysbyty a allai gael eu hosgoi a hefyd i helpu pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod pawb sy'n preswylio mewn cartref gofal yn gallu cyrchu gwasanaethau arbenigol fel rhan o ddatblygiad parhaus gwasanaethau gofal canolradd.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel

rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant dementia ac yn dweud ei fod ar hyn o bryd yn darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Dementia "da" i'r holl staff ar draws y sector ac y bydd yr holl staff yn dilyn rhaglen ymsefydlu sy'n cynnwys y sgiliau a'r dulliau y mae eu hangen wrth weithio gyda phobl sydd â dementia.

Yn ychwanegol, mae rhagor o hyfforddiant arbenigol ar gael sydd wedi'i seilio ar y Set Wybodaeth Sgiliau Gofal ar gyfer Dementia. Mae'n ymddangos bod hyfforddiant wedi'i ymgorffori yn ymagwedd yr Awdurdod Lleol at ddatblygu'r staff.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi cynlluniau i fonitro'r niferoedd sy'n dilyn hyfforddiant dementia ac i gynnig yr hyfforddiant yn ehangach. Mae llinellau amser ac enwau arweinwyr wedi'u nodi.

Er mwyn mynd i'r afael yn llawn ag angen y Comisiynydd, gallai tystiolaeth gael ei rhoi bod pob Rheolwr Cartref Gofal yn cael hyfforddiant ychwanegol ynglŷn â dementia fel rhan o'u datblygiad parhaus, gan nad yw ymateb yr Awdurdod Lleol yn mynd i'r afael â hyn yn llawn – mae'r ymateb yn nodi bod camau i'w cymryd i adolygu anghenion hyfforddi a'u hymgorffori yng nghynllun datblygu'r gweithlu at y dyfodol; er hynny, nid yw'n dweud yn benodol y bydd pob Rheolwr Cartref Gofal wedi'i hyfforddi mewn dementia.

Nid yw'r ymateb yn mynd i'r afael â materion goruchwylio ac asesu perfformiad. Byddai'r ymateb ar ei ennill pe bai sicrwydd yn cael ei roi ynglŷn â hyn, sef y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni'r Angen Gweithredu mewn gwirionedd.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio

mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio, gan ddweud bod cynlluniau cyfeillio ar gael yn y rhanbarth; er hynny, nid yw'r Awdurdod Lleol yn glir ar ba lefel y mae'r gweithgarwch yn digwydd. Gan hynny, mae'r ymateb yn brin o ran tystiolaeth am sut mae cyfeillio mewn cartrefi gofal yn hybu cysylltiadau sy'n pontio'r cenedlaethau, yn helpu'r preswylwyr i gadw a meithrin cyfeillgarwch a chysylltiadau â chymunedau diwylliannol penodol – pethau sydd i gyd wedi'i nodi yn yr anghenion.

Mae yna raglen o gymorth cymheiriaid i berchnogion cartrefi gofal er mwyn ceisio gwella lefel y gweithgarwch ond does dim manylion o ran pa gamau sydd wedi'u datblygu gan y grŵp hwn i wella'r gwaith cyfeillio.

Mae arferion da yn cael eu nodi drwy ddefnyddio Asiantau Cymunedol i helpu i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol pobl hŷn ac mae'r ymateb yn nodi bod yna botensial i'r gwaith hwn nodi cysylltiadau cadarnhaol â Chartrefi Gofal. Mae diffyg manylion ynghylch a yw'r gwasanaeth hwn ar waith ar hyn o bryd mewn cartrefi gofal yn tynnu oddi wrth effeithiolrwydd yr ymateb.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud ei fod yn bwriadu archwilio gwasanaethau cyfeillio, arfarnu deilliannau gwaith sy'n cael ei wneud mewn cartrefi gofal ac ymestyn menter yr Asiantau Cymunedol. Mae enwau arweinwyr a llinellau amser wedi'u nodi.

Mae'r ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r Angen Gweithredu mewn amserlen benodedig, er nad yw ar hyn o bryd yn cyflawni deilliannau i bobl hŷn yn yr holl feysydd a bennwyd.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos parodrwydd i gydymffurfio â'r angen ac i helpu i ddatblygu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd gwrando ar leisiau pobl hŷn a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ynglŷn â'r materion a godir. Mae'r Awdurdod Lleol yn siarad am fenter sydd wedi'i sefydlu i nodi ansawdd bywyd, sef y strategaeth 'Getting Engaged' sy'n cynnwys hyfforddi pobl hŷn fel

adolygwyr cydradd i helpu i sicrhau bod materion ansawdd bywyd yn cael sylw. Mae hyn yn arfer da, ond nid yw wedi'i ledu eto i gartrefi gofal.

Mae'r ymateb yn dweud bod ansawdd bywyd yn cael ei chynnwys ar hyn o bryd yn y broses adolygu flynyddol a bod yna ddeialog uniongyrchol â phreswylwyr a'u teuluoedd fel rhan o'r broses hon. Er hynny, drwy ei gyfaddefiad ei hun mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai'r defnydd ar y data a geir o adborth y preswylwyr fod yn well.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod gwaith wedi dechrau ar wella'r dulliau rhannu data rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd a bod yr Awdurdod Lleol wedi nodi bod ymgysylltu â phobl hŷn yn flaenoriaeth o ran y camau sydd i'w cymryd

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Mae’n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i’r angen hwn yn ymrwymo i lunio Datganiadau Ansawdd Blynyddol. Mae’r ymateb yn mynegi cefnogaeth o ran egwyddor ac yn dangos parodrwydd i weithio ar hyn ac i symud datblygiad y Datganiadau yn ei flaen.

Mae llinell amser ac enw arweinydd wedi’u nodi.

Atodiad 1:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cwestiynau a godwyd

Angen Gweithredu 2.4

Cwestiwn: “CBSW i ddatblygu datganiad ansawdd blynyddol yn unol â’r angen hwn. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad o ran a fydd templed cenedlaethol yn cael ei ddarparu.”

Mae’r cwestiwn hwn wedi’i ddehongli fe pe bai’n ymwneud â chyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe pe bai’n gofyn am eglurhad ynghylch a fydd templed cenedlaethol yn cael ei ddarparu.

Mae gan y Comisiynydd ddisgwyliadau clir ynghylch yr wybodaeth a gyhoeddir gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn y bau gyhoeddus ynghylch sut maen nhw’n cyflawni eu dyletswyddau. Mae ar bobl hŷn angen cyfle i weld gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon ynghylch ansawdd bywyd a’r gofal sy’n cael eu darparu gan gartrefi gofal unigol neu ynddyn nhw. Barn y Comisiynydd yw bod angen bod yn fwy agored a thryloyw ynglŷn ag ansawdd cartrefi gofal ledled Cymru.

Mae’r Comisiynydd yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw rhywfaint o ddata meintiol ar gael yn hwylus eto, ond yn y cyfamser ni ddylai hynny atal adroddiadau naratif cadarn a thryloyw am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal sydd wedi’u comisiynu ac sy’n cael eu rhedeg gan yr Awdurdodau Lleol. Mae diffyg tryloywder yn tanseilio gallu pobl hŷn i wneud penderfyniadau priodol a hyder y cyhoedd yn ehangach ac mae’n gweithredu fel rhwystr sy’n atal newid systemataidd.

Mae’r Comisiynydd yn disgwyl mai’r Awdurdodau Lleol fydd yn arwain wrth i’r Angen hwn gael ei ddatblygu a’i roi ar waith. Gan hynny, byddai’r

Comisiynydd yn annog eich Awdurdod i gydgysylltu â phob Awdurdod Lleol ynghylch datblygu Datganiad Ansawdd Blynyddol, gan gynnwys templed cenedlaethol. Efallai yr hoffai'ch Awdurdod godi hyn gyda Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hwyluso'r gweithredu.